**Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio SJR(2)-01-06(p.2)**

**Dyddiad:** 12fed Ionawr 2006
**Lleoliad:** Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Teitl:** Diweddariad Chwarterol 1af y Strategaeth Mentrau Cymdeithasol

## Pwrpas

1. Rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor am hynt y gwaith a wnaed er mwyn gweithredu'r Strategaeth Mentrau Cymdeithasol ar gyfer Cymru.

## Crynodeb/Argymhellion

2. Mae'r Strategaeth yn cynnwys nifer o gamau i'w cymryd gyda'r nod o greu amgylchedd lle gall mentrau cymdeithasol dyfu a ffynnu. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi datblygiadau a fydd o gymorth i gymryd y camau hynny ynghyd â'r blaenoriaethau a nodwyd gan y Cyd-weithgor Mentrau Cymdeithasol (SEJWG).

## Cefndir

3. Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori ar y Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2003. Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r ymgynghoriad ym mis Mawrth 2004. Mae'r Strategaeth, a lansiwyd ym mis Mehefin 2005, yn adeiladu ar y gwaith blaenorol hwn ac fe'i datblygwyd mewn partneriaeth â'r SEJWG sy'n cynnwys ymarferwyr mentrau cymdeithasol, aelodau o gyrff cynrychioliadol, Awdurdod Datblygu Cymru a'r sector gwirfoddol.

4. Mae'r Strategaeth yn dilyn fformat y Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol ac mae'n canolbwyntio ar bedwar prif amcan, sef:

   - Creu Amgylchedd sy'n Galluogi
   - Gwneud Mentrau Cymdeithasol yn Fusnesau Gwell
   - Sefydlu Gwerth Mentrau Cymdeithasol
   - Annog Datblygiad Cyfleoedd Newydd

5. Mae'r Strategaeth yn rhoi manylion pethau sy'n rhwystr i gyflawni pob un o'r amcanion hyn, gwybodaeth am rai o'r camau y byddwn yn eu cymryd i oresgyn y rhwystrau hyn a chrynodeb o'r gwaith sydd eisoes ar y gweill. Yn ogystal, mae'r Strategaeth yn cynnwys nifer o gamau a thargedau allweddol a gwybodaeth am y ffordd y caiff y rhain eu monitro a'u gwerthuso. Cynhelir adolygiadau blynyddol tan ddiwedd y Strategaeth – y cyntaf ohonynt yn yr Haf 2006.

**Ystyried**

6. Mae gan y SEJWG ran allweddol i'w chwarae yn cyflenwi'r Strategaeth. Yn eu cyfarfod diwethaf ym mis Hydref 2005, bu'r SEJWG yn trafod y ffordd orau o symud ymlaen â'r Strategaeth a pha gamau y dylid eu cymryd gyntaf. Cytunwyd mai'r blaenoriaethau oedd:
   - ariannu'r sector mentrau cymdeithasol
   - caffael
   - cymorth y wladwriaeth
   - datblygu asedau.

7. Teimlai'r Grŵp y byddai codi proffil mentrau cymdeithasol a manteision cymdeithasol posibl hynny yn allweddol i lwyddiant y Strategaeth yn gyffredinol. Penderfynwyd y dylid ffurfio is-grwpiau i symud ymlaen â rhai o'r prif gamau. Y cyntaf o'r rhain fyddai Is-grŵp Cyllid a fyddai'n ystyried ffurfio Sefydliad Cyllid Datblygu Cymunedol (SCDC) ar gyfer Cymru gyfan. Byddai hefyd yn ystyried y cyllid sydd ar gael yn y sector a pha newidiadau y dylid eu gwneud. Mae'r is-grŵp yn cwrdd ar 13 Ionawr.

8. Yn ogystal, rwyf wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu (DTA) Cymru i symud ymlaen â nifer o gamau gyda'r nod o roi mwy o sylw i fentrau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys hyrwyddo cyfrifyddu ac archwiliadaucymdeithasol fel ffordd o ddangos y manteision cymdeithasol a gynigir gan sefydliadau neilltuol a hyrwyddo cyhoeddi gwybodaeth ac arferion gorau ym maes trosglwyddo a datblygu asedau fel ffordd o sicrhau cynaliadwyedd.

9. Ceir tabl yn nodi camau'r Strategaeth a pha mor bell yr aed â'r rhain yn Atodiad A. Yn ogystal, mae'r tabl yn nodi'r camau a drafodir yng nghyfarfod nesaf SEJWG ar 31 Ionawr.

**Goblygiadau ariannol**

10. Nid oes materion ariannol yn gysylltiedig â'r papur hwn.

**Themâu Trawsbynciol**

12. Datblygwyd y Strategaeth Mentrau Cymdeithasol ar gyfer Cymru mewn ymgynghoriad â nifer o bartneriaid o'r sector mentrau cymdeithasol, asiantaethau statudol, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol. Mae'r Strategaeth yn talu sylw i gydraddoldeb, cynaliadwyedd a chynhwysiad/cyfiawnder cymdeithasol – sy'n themâu trawsbynciol gan y Cynulliad.

**Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc**

13. Gofynnir i’r Pwyllgor nodi pa mor bell yr aed â'r gwaith o gyflenwi’r Strategaeth Mentrau Cymdeithasol ar gyfer Cymru.

**Edwina Hart AM**
**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**

Cysylltwch â: Lisa Clarridge, Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau 02920 823639
Trish Fretten, Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau 02920 801095

**CAMAU I'W CYMRYD AR GYFER Y STRATEGAETH MENTRAU CYMDEITHASOL AR GYFER CYMRU Atodiad A**

**Creu Amgylchedd sy'n Galluogi**

**Camau:**

Dyma'r camau sy'n rhan o'r amcan o 'Greu Amgylchedd sy'n Galluogi':

| **Camau – *Creu Amgylchedd sy'n Galluogi*** | **Dangosyddion/<br><br>Targedau** | **Hynt** |
|---|---|---|
| Adolygiad blynyddol o'r Strategaeth Mentrau Cymdeithasol ar gyfer Cymru, mewn ymgynghoriad â'r sector | **Ymgynghori ar y Strategaeth a'i hadolygu, Haf 06**<br><br>**Adolygu, Haf 07**<br><br>**Gwerthuso, Haf 08** | Bydd y Tîm Ymchwil Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn gwneud hyn fel y trefnwyd. |
| Cryfhau cysylltiadau y tu mewn i Lywodraeth y Cynulliad o gwmpas yr agenda mentrau cymdeithasol e.e. tai, gofal plant, adfywio, addysg, datblygu economaidd ac iechyd ac mewn meysydd polisi e.e. y Cynllun Gofodol, Cymunedau yn Gyntaf, Blaenau'r Cymoedd a'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy | Ar y gweill – parhau i weithio y tu mewn i Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod polisïau a rhaglenni perthnasol yn adlewyrchu'r agenda mentrau cymdeithasol | ▪ Mynychu cyfarfodydd y Grŵp Polisi Cyfiawnder Cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth yn Llywodraeth Cynulliad Cymru<br><br>▪ Cynnwys mentrau cymdeithasol yn yr adolygiad o Ostyngiad ar Drethi Busnes<br><br>▪ Cynnwys mentrau cymdeithasol yng Nghanllawiau Cymunedau yn Gyntaf a Cymunedau @ Ei Gilydd<br><br>▪ Yr uned mentrau cymdeithasol yn cyfrannu at werthusiad o geisiadau o dan y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cymunedol. |
| Parhau â gwaith ymchwil a chasglu gwybodaeth yn sail ar gyfer gwaith ar bolisïau, marchnata a rhwydweithio | Wedi'i gynnwys yn rhaglen ymchwil Uned Ymchwil yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio 2005-07. | ▪ Wedi'i gynnwys yng Nghynllun Ymchwil yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio 06/07. Bwriedir mynd allan i dendr.<br>▪ Cymeradwywyd cais gan Brifysgol Morgannwg i'r Gronfa Syniadau Newydd (o dan £10,000) i ymchwilio i'r Rhwystrau sy'n Atal Mentrau Bach yng Nghymru rhag Tyfu. |
| Cefnogi mentrau cymdeithasol, buddsoddwyr a rhwydweithiau cefnogi yn y gwaith o gyfnewid Arferion Gorau. | Cant o gyfnewidiadau bob blwyddyn. | Cynllun presennol Cymdeithas yr Ymddiriedolaethau Datblygu ac arferion gorau eraill yn cael eu hystyried. |
| Cyhoeddi astudiaethau achos | 20 o eitemau gan gyfryngau cenedlaethol Cymru<br><br>50 o eitemau mewn cyhoeddiadau arbenigol | ▪ Cyfarfod nesaf SEJWG i ystyried y strategaeth gyfathrebu<br>▪ Staff swyddfa'r wasg a staff cyfathrebu yn ymwybodol o amcanion y Strategaeth |
| Cefnogi astudiaethau achos hyfforddiant ac arferion gorau, treialu polisi a gwaith ym maes caffael | | ▪ Ffurfiwyd cysylltiadau â Gwerth Cymru (Caffael)<br>▪ Cynlluniau i gynnal cyfarfod o is-grŵp Caffael SEJWG a Seminar tua dechrau 2006. |
| Cefnogi hyfforddiant ac arferion gorau, | **Cynnal y seminar gyntaf erbyn Rhagfyr** | ▪ Cafwyd ymateb da i'r seminar a |

| | | |
|---|---|---|
| astudiaethau achos, treialu polisi a gwaith ym maes Cymorth Gwladwriaethol. | **2005.** | gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr. Roedd 50 o swyddogion o lywodraeth leol a'r sector gwirfoddol yn bresennol. |

**Gwneud Mentrau Cymdeithasol yn Fusnesau Gwell**

**Camau:**

Dyma'r camau sy'n rhan o'r amcan o wneud mentrau cymdeithasol yn fusnesau gwell:

| **Camau - *Gwneud Mentrau Cymdeithasol yn Fusnesau Gwell*** | **Dangosyddion/ Targedau** | **Hynt** |
|---|---|---|
| Cynyddu trosiant mentrau cymdeithasol mwyaf Cymru | Sicrhau cynnydd o 200% yn nifer y mentrau cymdeithasol sydd â throsiant o dros £1m dros dair blynedd. | Bydd y Tîm Ymchwil Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn defnyddio ffynonellau data presennol i fonitro'r trosiant. |
| Sefydlu rhaglen **Fentora** ar gyfer arweinwyr mentrau cymdeithasol ac olynwyr / arweinwyr sy'n datblygu. | 50 o lefydd mentora ar gyfer cadeiryddion, prif weithredwyr ac olynwyr dros gyfnod y Strategaeth | Ar y gweill eisoes, o dan arweiniad Awdurdod Datblygu Cymru.<br><br>Grŵp llywio'n cyfarfod nesaf ar 23 Ionawr |
| Ariannu'r gwaith o rannu gwybodaeth ac arferion gorau ym maes **datblygu/ trosglwyddo asedau** | | Ym mis Hydref 2005, cymeradwywyd cyllid fel y gall Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru symud ymlaen â'r gwaith. |
| Parhau i ddatblygu cynigion ar gyfer **SCDC Cymru gyfan** gyda'r DTI/Cyllid Cymru. | Gwaith ar y gweill gan Cyllid Cymru ar fodel hybrid SCDC ar gyfer Cymru.<br><br>DTI yn mynd ar drywydd addewidion adroddiad y gyllideb i sefydlu cronfa dwf ar gyfer SCDC y DU, os yw'n dderbyniol o safbwynt Cymorth Gwladwriaethol. | Is-grŵp Cyllid SEJWG i symud ymlaen â'r mater.<br><br>Cyfarfod cyntaf yr is-grŵp ar 13 Ionawr. |
| Mapio ffynonellau | | Yr Is-grŵp Cyllid i |

| | | |
|---|---|---|
| cymorth ariannol o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat a chymorth busnes ar gyfer mentrau cymdeithasol | | symud ymlaen â'r mater |
| Cydweithio â phartneriaid i ddenu'r sector preifat, yn cynnwys banciau, i ganfod cyfleoedd ar gyfer mentrau cymdeithasol | | Gall hyn hefyd fod yn rhan o waith yr Is-grŵp Cyllid. |
| **Cymorth Busnes**<br><br>Datblygu **Llygad Busnes** i sicrhau bod pob math o fentrau cymdeithasol yn cael eu cyfeirio at y gwasanaethau perthnasol o ran cymorth busnes. | WDA i baratoi Cyfeiriadur Gwasanaethau Cymorth Busnes i gynnwys pob math o fusnesau | Anfon manylion cofrestru at holl aelodau'r Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol. |
| **Hyfforddi cynghorwyr busnes** i weithio gyda mentrau cymdeithasol a chyflwyno cymwysterau | | Cynghorwyr busnes Awdurdod Datblygu Cymru wedi cael hyfforddiant i godi eu hymwybyddiaeth o fentrau cymdeithasol. |
| **Rhaglen hyfforddi** ar gyfer y sector i gynnwys meithrin gallu ym meysydd: strwythurau cyfreithiol, cynllunio busnesau ac ymwybyddiaeth ariannol | | ▪ Bydd DTA Cymru yn symud ymlaen â rhai agweddau o dan gytundeb ariannu.<br><br>▪ Bwriedir mynd allan i dendr ar gyfer agweddau eraill |
| Darparu **cymorth arbenigol** i alluogi mentrau cymdeithasol i baratoi i dendro ar gyfer contractau yn y | Mentrau cymdeithasol i ennill contractau newydd gwerth cyfanswm o £2m erbyn | Bydd Is-grŵp Caffael SEJWG yn symud ymlaen â hyn pan gaiff ei sefydlu |

| | | |
|---|---|---|
| sector cyhoeddus a gwneud y gwaith | 2008. | |
| Hyrwyddo mecanweithiau **datblygu asedau** – yn bennaf trwy drosglwyddiadau a chyllid y gellir ei ddefnyddio i brynu ac adfer asedau | Trosglwyddo asedau gwerth £6m a sicrhau buddsoddiad gwerth £12 i brynu/adnewyddu asedau[3]. | Ym mis Hydref 2005, cymeradwywyd cyllid fel y gall Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru symud ymlaen â'r gwaith. |
| Datblygu cynigion '**hawl cymunedau i brynu'** | Mynd ymlaen â'r mater gan ddilyn amserlen y Swyddfa Gartref | Ym mis Hydref 2005, cymeradwywyd cyllid fel y gall Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru symud ymlaen â'r gwaith. |

**Sefydlu Gwerth**

**Camau:**
Dyma'r camau sy'n rhan o'r amcan o sefydlu gwerth:

| **Camau:** ***Sefydlu Gwerth*** | **Dangosyddion/ Targedau** | |
|---|---|---|
| Cefnogi **Cynhadledd Flynyddol** ar fentrau cymdeithasol yng Nghymru | 300 o gynadleddwyr y flwyddyn erbyn 2005. | Bwriedir cynnal y gynhadledd gyntaf yn yr Haf 2006. |
| Cyflwyno a chyhoeddi **Cylchlythyr Mentrau Cymdeithasol** bob chwarter | Cyhoeddi cylchlythyr chwarterol | Gwaith ar y gweill. Mae cylchlythyrau blaenorol ar wefan y Cynulliad hefyd. |
| Ystyried contract i weithredu **cynllun cyfathrebu** i godi ymwybyddiaeth cynulleidfaoedd targed allweddol | Gwneud argymhellion i'r Gweinidog erbyn **mis Mawrth 2006.** | Drafft i'w ystyried gan SEJWG ar 31 Ionawr |

| | | |
|---|---|---|
| Annog mentrau cymdeithasol i gymryd rhan mewn **cynlluniau gwobrwyo** perthnasol | Rhoi gwybod i'r sector am gynlluniau gwobrwyo perthnasol trwy Gylchlythyr gan Lywodraeth y Cynulliad | Bwriedir symud ymlaen â'r gwaith mewn partneriaeth â Gwasanaeth Busnesau Bach y DTI a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill. |
| Sicrhau bod buddiannau'r sector yn cael eu cynrychioli a'u hyrwyddo ledled **Ewrop**; canfod cyfleoedd i ddysgu ac i rannu arferion gorau | Eisoes mewn cysylltiad â Llywodraeth y DU a Llywodraethau eraill yn Ewrop | SEJWG heb ei ystyried eto. |
| Datblygu a chynnal gwybodaeth fanwl am y sector yng Nghymru ac, o bosib, creu **cronfa ddata** Gymreig ar faint y sector, faint mae'n eu cyflogi a'i gyfraniad i'r economi | Cyhoeddi canlyniadau gwaith mapio a wnaed ledled y DU yn 2005 yn unol ag amserlen y DTI | I'w ystyried yng nghyfarfod SEJWG ar 31 Ionawr. |
| Sefydlu **strwythur cynrychioliadol** ar gyfer y sector yng Nghymru trwy edrych ar arferion gorau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol | | Cynnig y Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol i'w ystyried yng nghyfarfod SEJWG ar 31 Ionawr. |
| Parhau i ddatblygu **cyfrifyddu cymdeithasol** yng Nghymru o brosiect peilot DTAW / CFSN | 20 set o gyfrifon cymdeithasol ac amgylcheddol wedi'u paratoi a'u harchwilio yn 2006 a 30 yn 2007 | Ym mis Hydref 2005, cymeradwywyd cyllid fel y gall Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru symud ymlaen â'r gwaith. |

**Datblygu Cyfleoedd Newydd**

**Camau:**
Dyma'r camau sy'n rhan o'r amcan o ddatblygu cyfleoedd newydd:

| **Camau:** ***Datblygu Cyfleoedd Newydd*** | **Dangosyddion/**<br><br>**Targedau** | |
|---|---|---|
| Defnyddio **rhwydweithiau** presennol a chefnogi rhai sy'n datblygu mewn meysydd fel **Busnesau Cymdeithasol, ailgylchu, gofal plant, trosglwyddo tai** ac **ynni adnewyddadwy** | Paratoi argymhellion ar gyfer y Gweinidog yn ôl y gofyn.<br><br>O leiaf bedwar rhwydwaith yn cael eu cefnogi erbyn diwedd 2007. | Heb ei ystyried gan SEJWG eto. |
| Ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer mentrau cymdeithasol trwy **strategaeth Blaenau'r Cymoedd** | Chwe menter gymdeithasol newydd wedi'u creu i helpu i gyflawni'r Strategaeth | Cadeirydd SEJWG i drefnu cyfarfod gyda thîm Blaenau'r Cymoedd. |
| **Caffael**<br><br>Canfod cyfleoedd i fentrau cymdeithasol gymryd rhan mewn trefniadau caffael cyhoeddus trwy Raglen Cymru ar gyfer Gwella (WPI) | **Adrodd ar ddatblygiadau fel rhan o'r Arolwg Blynyddol** | Yr Is-grŵp Caffael i symud ymlaen â'r mater. |
| Ymchwilio i gyfleoedd i gefnogi **clystyru, rhyngfasnachu, mentrau deillio** a **mentrau ar gyfer y farchnad lafur drosiannol** | Paratoi argymhellion ar gyfer y Gweinidog yn ôl y gofyn.<br><br>O leiaf ddau glwstwr wedi'u sefydlu erbyn diwedd 2006. | ▪ Yr Is-grŵp Caffael i symud ymlaen â rhai agweddau ar y gwaith.<br><br>▪ DTA Cymru i symud ymlaen â rhai agweddau ar y gwaith. |